# Rheolwr Rhyddhau Meddalwedd Sgrym

Cyflog: £58,590 - £60,939 y flwyddyn (Gradd 13)

Math o Gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

Mae CBAC, sy'n adnabyddus yn y byd addysg yng Nghymru, yn un o brif ddarparwyr cymwysterau y gellir ymddiried ynddynt ar draws y DU. Rydym yn ymgymryd â rhaglen eang o drawsnewid ar hyn o bryd ac yn falch o allu croesawu ceisiadau am Reolwr Rhyddhau Meddalwedd Sgrym i ymuno â'n tîm datblygu ystwyth.

Cyfrifoldeb y Rheolwr Rhyddhau Meddalwedd Sgrym, gan weithio dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol TG, yw rheoli amrywiaeth eang ac amrywiol o ddiweddariadau cymwysiadau, amgylchedd a thechnoleg, o'r cyfnod datblygu i'r cyfnod profi, i'r cyfnod cynhyrchu a Busnes yn ôl yr Arfer. Byddan nhw'n cydlynu'r llwybr rhyddhau, gan reoli dibyniaethau a sicrhau adnoddau datblygwyr, dileu blocwyr, a sicrhau cysondeb rhwng amryfal dimau a rhanddeiliaid ystwyth.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol gefndir cadarn mewn fframweithiau ystwyth, sgiliau rheoli projectau cryf, y gallu i reoli cwsmeriaid a chyflenwyr a dealltwriaeth ddofn o gylchred amser rheoli'r broses o ryddhau meddalwedd.

**Y Contract:**

Mae'r rôl hon yn un hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar ddewis personol ac anghenion busnes. Dylai deiliaid y rôl fod yn barod i weithio o'n swyddfa yng Nghaerdydd o leiaf unwaith yr wythnos. Byddai sgiliau iaith Gymraeg yn fuddiol ar gyfer y rôl hon, ond nid ydynt yn ddisgwyliedig.

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn buddion diffiniedig CARE (CPLlL) a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Os hoffech wybod mwy am y swydd neu am weithio i CBAC, cysylltwch â Fliss (hi) drwy (AD@cbac.co.uk), bydd hi'n fwy na pharod i siarad â chi.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: dydd Sul, 5 Ionawr 2025.

245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX
245 Western Avenue, Cardiff, CF5 2YX
Ffôn/Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.cbac.co.uk / www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Rheolwr Rhyddhau Meddalwedd Sgrym |
| **Adran:** | TG – Gwasanaethau Technegol |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cynorthwyol TG |
| **Gradd:** | 13 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin (Hybrid) |

## Prif bwrpas y Swydd:

Mae CBAC yn chwilio am Reolwr Rhyddhau Meddalwedd Sgrym medrus a llawn cymhelliant i ymuno â'n tîm datblygu ystwyth. Mae'r rôl hon yn gyfrifol am reoli amrywiaeth eang ac amrywiol o ddiweddariadau cymwysiadau, amgylchedd a thechnoleg, o'r cyfnod datblygu, i'r cyfnod profi i'r cynhyrchu a Busnes yn ôl yr Arfer. Mae'n hanfodol i lwyddiant ein proses dosbarthu meddalwedd, gan sicrhau y rhyddheir cynhyrchion safonol yn amserol ac yn esmwyth, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar ddarpariaeth gwasanaethau neu ddiogelwch gwybodaeth.

Cyfrifoldeb y Rheolwr Rhyddhau Meddalwedd Sgrym fydd cydlynu'r llwybr rhyddhau, rheoli dibyniaethau a sicrhau adnoddau datblygwyr, dileu blocwyr, a sicrhau cysondeb rhwng amryfal dimau a rhanddeiliaid ystwyth. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol gefndir cadarn mewn fframweithiau ystwyth, sgiliau rheoli projectau cryf, y gallu i reoli cwsmeriaid a chyflenwyr a dealltwriaeth ddofn o gylchred amser rheoli'r broses o ryddhau meddalwedd.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

1. Cynllunio a Chydlynu Rhyddhau Meddalwedd
   - Defnyddio methodoleg rheoli projectau a gwybodaeth TG eang i ddatblygu, cynnal a chyfathrebu cynlluniau rhyddhau sy'n gyson â mapiau ystwyth a chynhyrchion.
   - Cydweithio'n agos â pherchnogion cynhyrchion, timau sgrym a datblygu i ddeall dibyniaethau, llinellau amser a nodau rhyddhau meddalwedd a rheoli goblygiadau cyllideb a rhoi adborth i randdeiliaid allweddol.
   - Hwyluso adolygiadau parodrwydd i ryddhau, gan sicrhau bod yr holl ofynion cyn-ryddhau wedi'u bodloni.
   - Sicrhau bod unrhyw faterion a allai effeithio ar gyllidebau neu amseru wedi'i reportio a'u huwchgyfeirio ar unwaith i sicrhau tryloywder bob amser.
   - Cymryd cyfrifoldeb am holl gyfnodau cynllunio ystwyth sgrym, gan gynnwys: sicrhau bod yr adnoddau o ran arweiniad pensaernïol a systemau ar gael i aelodau'r tîm; cynnwys rheoli rhyddhau meddalwedd a goruchwylio gweithgareddau yn y cynllun datblygu.

2. Cydweithio'r Tîm Ystwyth

- Sefydlu a chydlynu timau ar draws swyddogaethau o ran gweithgareddau rhyddhau a rheoli dibyniaethau rhwng timau a phrojectau.
- Gweithredu fel cyswllt rhwng timau ystwyth ac adrannau eraill (Rhanddeiliaid yn y Corff (mewnol ac allanol), Sicrhau Ansawdd, Gweithrediadau Datblygwyr, Cynnyrch, ac ati) er mwyn sicrhau bod amcanion a llinellau amser rhyddhau yn gyson.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil manwl a datrys problemau mewn ffyrdd arloesol i ddatrys blocwyr sy'n effeithio ar linellau amser a dibyniaethau rhyddhau.
- Darparu cyngor ac arweiniad awdurdodol i gydweithwyr ar unrhyw agwedd ar raglennu rhyddhau meddalwedd, gan gynnwys hyfforddi aelodau staff a datblygwyr eraill, lle y bo'n briodol.

3. Tracio ac Adrodd yn ôl ar Ryddhau Meddalwedd
- Cynnydd tracio rhyddhau meddalwedd; nodi risgiau a datblygu a gweithredu cynlluniau lliniaru yn ôl yr angen.
- Darparu diweddariadau ac adroddiadau statws clir a chryno i randdeiliaid ynghylch y cwmpas, llinellau amser a materion yn ymwneud â rhyddhau meddalwedd.
- Diffinio a thracio metrigau rhyddhau meddalwedd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu darparu'n llwyddiannus a gwelliant parhaus yn digwydd.

4. Gwella prosesau
- Dadansoddi a gwella'r broses o ryddhau rhaglenni meddalwedd i gynyddu effeithlonrwydd, lleihau amser segur, ac optimeiddio cynhyrchedd y tîm.
- Gweithredu arferion gorau ar gyfer integreiddio a darparu parhaus ar y cyd â'r tîm DevOps.
- Annog a chefnogi mentrau gwelliant parhaus ar draws timau ystwyth.

5. Rheoli Risg a Chydymffurfio
- Nodi, cyfathrebu a rheoli risgiau rhyddhau meddalwedd, gan ddatblygu cynlluniau wrth gefn yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod unrhyw ryddhau meddalwedd sy'n digwydd yn bodloni safonau cydymffurfio, rheoleiddio a diogelwch.
- Cydlynu dilysu ôl-ryddhau a thracio diffygion, rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith er mwyn gwella trefniadau rhyddhau meddalwedd yn y dyfodol.

6. Cyffredinol
- Dirprwyo dros y CC lle bo angen mewn cyfarfodydd mewnol/allanol.
- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Rheolwr Rhyddhau Meddalwedd Sgrym** |
| **Adran:** | TG |

Meini prawf hynod ddymunol yw’r sgiliau a’r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol.   Meini prawf dymunol yw’r rhai a fyddai’n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Hynod drefnus ac yn gallu cyflawni sawl tasg ar unwaith gan dalu sylw i'r manylion.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i weithio'n effeithiol â rhanddeiliaid technegol ac annhechnegol, gan ddylanwadu ar bob lefel o'r busnes.
- Tystiolaeth o sgiliau datrys problemau a'r gallu i weithio dan bwysau i gwrdd â therfynau amser.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig a'r gallu i ryngweithio'n broffesiynol mewn amrywiol gyfryngau (Cyflwyniad, e-bost, rhwydweithio). Y gallu i symleiddio a chyfleu gwybodaeth dechnegol i gynulleidfaoedd annhechnegol.
- Hynod drefnus, gyda'r gallu i gynllunio a goruchwylio projectau strategol, traws-swyddogaethol yn cynnwys sawl tîm.
- Y gallu i gysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan ddeall a dehongli eu gofynion a'u troi'n arfer gweithredol.

**Dymunol**

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Adnabyddiaeth o arferion DevOps ac offer awtomeiddio rhyddhau meddalwedd.

## Gwybodaeth a Phrofiad

**Hynod Ddymunol**

- Profiad helaeth o reoli rhyddhau meddalwedd, rheoli projectau, neu rolau tebyg o fewn amgylchedd datblygu meddalwedd ystwyth.
- Dealltwriaeth gref o fethodolegau ystwyth (Scrum, Kanban) a phrofiad gydag offer fel Jira, Confluence, neu debyg.
- Profiad o reoli timau traws-swyddogaethol a gweithio gyda llwybrau GP/DP.
- Profiad o fethodolegau rheoli newid neu wella prosesau.
- Profiad o'r gylchred oes datblygu meddalwedd.
- Adnabyddiaeth o blatfformau cwmwl, micro-wasanaethau, ac offer defnyddio cysylltiedig.
- Dealltwriaeth o fethodolegau datblygu meddalwedd.

**Dymunol**

- Gwybodaeth am systemau arholiadau
- Gwybodaeth am y byd Addysg
- Gwybodaeth am raglenni trawsnewid TG

## Hyfforddiant/Cymwysterau

**Dymunol**

- Gradd neu brofiad proffesiynol technegol cywerth mewn maes perthnasol.
- Ardystiad *Certified ScrumMaster (CSM), Certified Agile Project Manager*, neu *Release Train Engineer* (RTE).

## Arall

**Hynod Ddymunol**

- Ymagwedd hyblyg at waith.

| Telerau ac Amodau Gwasanaeth | Terms and Conditions of Service |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:**<br>**Job Title:** | **Rheolwr Rhyddhau Meddalwedd Sgrym** | | |
| **Cyflog:**<br>**Salary:** | £58,590 - £60,939 y flwyddyn | **Gradd:**<br>**Gradd:** | 13 |
| **Gwyliau Blynyddol:**<br><br>**Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd.<br><br>25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays | | |
| **Pensiwn:**<br><br>**Pension:** | Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol<br><br>The provision of the Local Government Superannuation Act apply | | |

| **Math o Gytundeb:** | **Contract Type:** |
|---|---|

☒ Llawn amser / Full Time

☐ Rhan amser / Part Time — **Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week**

☐ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term — **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term**

☐ Rhan amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term — **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** / /

**Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week** 36.5

| **Dull Ymgeisio:** | **Method of Application:** |
|---|---|

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn dydd Sul, 5 Ionawr 2025.

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by Sunday 5 January 2025.